Côd Morol Gwynedd

Byddwch yn wyliadwrus gan gadw draw o fywyd gwyllt. Peidiwch â mynd at famaliaid môr, gadewch iddynt ddod atoch chi. Byddwch yn ofalus wrth lywio cychod, gan sicrhau diogelwch y teithwyr a pharchu pobl eraill sy'n defnyddio'r môr.

Dolffiniaid, Llamhidyddion a Morloi

Os dewch chi ar draws y creaduriaid hyn yn y môr:

- **Arafwch** yn raddol i'r cyflymder isaf posib. Peidiwch â newid eich cyflymder na'ch cwrs yn sydyn.
- **Peidiwch** â llywio'r cwch yn syth atynt na mynd yn nes na 100 medr.
- **Peidiwch** â cheisio cyffwrdd y creaduriaid, eu bwydo na nofio â hwy.
- **Byddwch** yn arbennig o ofalus wrth osgoi aflonyddu ar anifeiliaid gyda rhai ifainc.
- **Peidiwch** â mynd at forloi sy'n gorffwys ar y lan, a pheidiwch â mynd i mewn i ogofâu môr yn y tymor lloea (1 Awst tan 31 Hydref).
- **Peidiwch** â thaflu sbwriel na chyfarpar pysgota i'r môr.
- **Peidiwch** â gwneud unrhyw sŵn diangen ger yr anifeiliaid.

Mae'r côd hwn yn berthnasol i bob llong a chwch hamdden yn cynnwys cychod modur, cychod hwylio, dingis, badau personol, caiacau a chanŵod. Dylech gydymffurfio â phob cais gan gychod patrolio lleol a bod yn ymwybodol o derfynau cyflymder o amgylch traethau ymdrochi a safleoedd bywyd gwyllt.

Adar

- **Cadwch** draw o'r clogwyni yn y tymor bridio (1af o Fawrth – 31 Gorffennaf).
- **Peidiwch** â gwneud sŵn diangen wrth y clogwyni.
- **Cadwch** draw o heidiau adar sy'n gorffwys neu'n bwydo ar y môr.



Noder fod Harbwrfeistri a Swyddogion Rheoli Lansio Gwynedd wedi'u hawdurdodi i dynnu trwyddedau lansio a/neu angori oddi ar gychod ac unigolion nad ydynt yn cadw at reoliadau lleol, is-ddeddfau neu Gôd Morol Gwynedd. Mae'n drosedd i aflonyddu'n fwriadol neu'n ddi-hid ar unrhyw rywogaeth a warchodir (megis dolffiniaid).